Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.
This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

# CYNLLLUN LLES ANIFEILIAID

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

## Rhagair

Mae'r Cynllun Ymwelwyr Lleyg Er Lles Anifeiliaid wedi bodoli ers 2002, ac mae'n rhywbeth yr wyf i fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n ei groesawu'n fawr. Mae'n bwysig i mi fod ein Cŵn Heddlu'n cael eu trin â'r gofal gorau posibl er mwyn sicrhau eu bod nhw'n iach a heini i ymgymryd â'u rolau pwysig.

Mae gwirfoddolwyr y Cynllun Lles Anifeiliaid yn chwarae rhan bwysig o ran fy nghefnogi â'm gweithgarwch sicrwydd a chraffu. Mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn ein helpu i ddatblygu ffydd a gwella gwasanaethau plismona. Rydyn ni'n ddiolchgar iawn am eu gwaith caled a'r effaith gadarnhaol maen nhw'n cael ar ein cymuned. Roedd 2024/2025 yn flwyddyn brysur arall i'r gwirfoddolwyr a hoffwn ddiolch iddynt am eu gwaith caled a'u cefnogaeth barhaus.

### Safonau Lles Anifeiliaid

Gofynnir i Ymwelwyr Lles Anifeiliaid asesu anghenion cŵn yr heddlu yn seiliedig ar Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, sy'n gosod cyfrifoldeb ar wasanaethau heddlu i ddangos bod anghenion eu cŵn yn cael eu bodloni. Asesir yr anghenion hyn o dan y 5 Safon Lles Anifeiliaid, sef:

- Yr angen ar gyfer amgylchedd addas
- Yr angen ar gyfer deiet addas
- Yr angen i allu arddangos patrymau ymddygiad arferol
- Yr angen i gael eu cartrefu gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt
- Yr angen i gael eu gwarchod rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

I gydnabod y gwaith mae gwirfoddolwyr y Cynllun Lles Anifeiliaid wedi cyfrannu tuag at gydweithrediad adran gŵn HDP, mae'r Ymddiriedolaeth Gŵn wedi darparu'r dystysgrif hon i gydnabod bod y safonau Lles Anifeiliaid yn cael eu cynnal yn Nyfed-Powys.


Mae Dogs Trust yn ardystio i bawb fod gan

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Gynllun Lles Anifeiliaid

Sydd wedi ei gydnabod a'i fonitro

Ac mae ganddyn nhw hawl i gwn Gwaith addas gan Dogs Trust

Mae'r ardystiad hwn yn ddilys o 23 Chwefror 2025 am flwyddyn

Louise Crawford
Cydlynydd Cynllun Lles Anifeiliaid, Dogs Trust







Dechreuodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) y flwyddyn gyda 4 gwirfoddolwr Cynllun Lles Anifeiliaid. Gyda dau aelod yn ymadael, recriwtiodd SCHTh 5 aelod gwirfoddol newydd a dderbyniodd hyfforddiant ymgynefino ym mis Ionawr 2025 yng nghyfleuster Cytiau Pen-bre Heddlu Dyfed-Powys (HDP) gyda chymorth Louise Crawford o’r Ymddiriedolaeth Gŵn a’r Rhingyll Kerry Williams o’r Adran Gŵn.

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Ar hyn o bryd, mae gan y cynllun 7 gwirfoddolwr Cynllun Lles Anifeiliaid wedi'u lleoli ar draws ardal Dyfed-Powys. Gwneir pob ymdrech i'r cynllun gynrychioli demograffeg Dyfed-Powys, ond yn dyngedfennol, penodir gwirfoddolwyr sy'n dangos ymrwymiad a diddordeb gwirioneddol yn y cynllun i'r tîm. Cydnabu nad yw hyn yn cynrychioli ardal ddemograffig Dyfed-Powys, ond bu hyn yn darged ar gyfer ymgyrchoedd recriwtio. Mae rheolwyr y cynllun wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau cymunedol, ysgolion a cholegau ledled ardal Dyfed-Powys, a sioeau cenedlaethol megis yr Urdd a Sioe Frenhinol Cymru, i hyrwyddo ac addysgu aelodau o'r cymunedau am y cynllun. Mae demograffig presennol ein gwirfoddolwyr fel a ganlyn, gyda phob un ohonynt yn uniaethu fel pobl Gwyn:








Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Mae gan HDP gyfanswm o 17 Triniwr Cŵn ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Phowys. Mae nifer o drinwyr cŵn wedi'u pennu i bob gwirfoddolwr Cynllun Lles Anifeiliaid. Gofynnir i wirfoddolwyr asesu'r cerbyd mae'r ci'n cael ei gludo ynddo, gwylio hyfforddiant mae cŵn yn cymryd rhan ynddo gyda'u triniwr, a gwirio cytiau.

Yn 2024/2025, ymgymerwyd â 41 o ymweliadau gan ein gwirfoddolwyr ac ni fynegwyd unrhyw bryderon sylweddol drwy'r ymweliadau hyn. Yn ogystal â'r ymweliadau a gynhelir gan wirfoddolwyr, ymwelir â thrinwyr cŵn yr heddlu adref ac adroddir am ganfyddiadau wrth SCHTh. Yn 2024/2025, ymgymerwyd ag 11 ymweliad cartref ac ni adroddwyd am unrhyw faterion wrth SCHTh.

Crynodeb o ymweliadau



## Edrych Tua’r Dyfodol

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant eleni, nodir cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw’n llwyr ymwybodol o unrhyw ganllawiau neu fentrau newydd. Byddwn ni’n parhau i ymgysylltu â’r Ymddiriedolaeth Gŵn er mwyn sicrhau ein bod ni’n glynu wrth ganllawiau penodol.

Gwneir trefniadau pellach drwy gydol y flwyddyn i wirfoddolwyr arsylwi sesiynau hyfforddi priodol y cŵn o fewn gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys. Ymgymerir â’r rhain ar sail asesiad risg, gan sicrhau diogelwch gwirfoddolwyr, trinwyr cŵn a’r cŵn eu hunain.

Gydag un swydd wag yn ardal Ceredigion ar hyn o bryd, bydd SCHTh yn defnyddio digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus i hyrwyddo’r cynllun gyda golwg ar ddenu gwirfoddolwr newydd. Y gobaith yw y bydd hyn hefyd yn cynyddu amrywiaeth y gwirfoddolwyr.